



Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales



**Gofal iechyd a nyrsio mewn carchardai yng
Nghymru**

**Galwad am Weithredu gan Goleg Nyrsio
Brenhinol Cymru**



Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion


Mae Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru wedi paratoi'r papur hwn i dynnu sylw at bwysigrwydd a gwerth nyrsio mewn carchardai yng Nghymru.

Mae aelodau RCN Cymru yn gweithio mewn carchardai i ddarparu gofal clinigol hanfodol a chymorth tosturiol i rai o'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae aelodau RCN Cymru yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i boblogaeth carchardai Cymru.

Mae iechyd poblogaeth y carchardai wedi bod o ddiddordeb cenedlaethol yn ddiweddar. Ar lefel y DU, lluniodd y Panel Cyngori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa a'r RCN adroddiad, Avoidable natural deaths in prison custody: putting things right (Medi 2020).

Yng Nghymru, lluniwyd dau adroddiad diweddar gan Robert Jones, Prifysgol Caerdydd; bu ymchwiliad hefyd gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn drafftio adroddiad ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion.

Lluniwyd y papur hwn gyda sylwadau Grŵp Nyrsio Carchardai RCN Cymru ac fe'i trafodwyd gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth.



Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw darparu gofal iechyd yn ystad y carchardai. Ar hyn o bryd, mae nyrsys a staff nyrsio yn darparu llawer o'r gwasanaethau hyn ac mae gan y proffesiwn y potensial i gyfrannu ymhellach.


Mae RCN Cymru yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd y camau brys canlynol i wella'r ddarpariaeth gofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru.

1

Dylai'r Grŵp/Bwrdd Goruchwylio Iechyd Carchardai Cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sefydlu ffrwd waith i wneud argymhellion a gwelliannau o ran cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig mewn carchardai.

2

Dylai'r ffrwd waith, gyda chyngor gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Prif Swyddog Nyrsio, ddatblygu strategaeth gweithlu sy'n ystyried y fframwaith cenedlaethol ar gyfer nyrsio mewn carchardai.



3

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar frys yr arian a ddarperir i fyrddau iechyd ar gyfer gofal iechyd carchardai, er mwyn sicrhau bod y broses o gyfrifo cyllid, dyrannu ac adolygu yn dryloyw, yn gyson, a bod ganddi berthynas glir â'r boblogaeth a wasanaethir a'i hanghenion.

4

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygu Rhan 6 o Gynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 mewn carchardai, gan gynnwys effaith anghymesur y pandemig mewn carchardai.


5

Dylai'r grŵp/bwrdd goruchwylio iechyd carchardai cenedlaethol gefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn carchardai drwy weithredu ac adolygu rhaglenni cenedlaethol y Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol a'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru.



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ac argymhellion	2
Adran Un – Trosolwg o ofal iechyd mewn carchardai	6
Cyfweliad â Clare Frost, Pennaeth Gofal Iechyd CEM a STI y Parc/G4S Health Services	10
Adran Dau – Sut mae nyrsio mewn carchardai yn gwella iechyd y cyhoedd	12
Hepatitis C	13
Salwch meddwl (gan gynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio)	14
Camddefnyddio sylweddau	16
Anableddau dysgu	17
Cymorth i garcharorion hŷn	19
Menywod mewn carchardai	22
Cyfweliad â Kirsty John, Nyrs Carchardai ac Aelod O'r RCN Carchar: CEM Caerdydd	25
Adran Tri – Sut gallai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y nyrsys a'r staff nyrsio sy'n gweithio mewn carchardai?	27
COVID-19 ac atal a rheoli heintiau	32
Cyfweliad ag Alison Ryland, CEM Brynbuga (Categori C), STI Prescoed (Categori D)	36



Adran 1 Trosolwg o ofal iechyd mewn carchardai

Dynion yn unig yw poblogaeth carcharorion Cymru ac roedd yn 5,104 ar ddiwedd mis Mawrth 2020.¹ Cedwir carcharorion mewn chwe safle yn ne Cymru ac yn CEM Berwyn yng ngogledd Cymru, ac mae gan bob carchar broffil, swyddogaeth a chategori diogelwch gwahanol.


Nid oes carchardai ar gyfer benywod yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae lefel carcharorion benywaidd o Gymru yn Lloegr wedi dringo i'w lefel uchaf, yn 2018 (261). Cynhaliwyd hyn yn 2019.² Ym mis Rhagfyr 2019, roedd dwy ran o dair (67%) o garcharorion benywaidd o Gymru yn CEM Eastwood Park (128), a leolir yn Wotton-under-Edge, a CEM Styal (39), a leolir yn Wilmslow.³

Daw llawer o bobl sydd yn y carchar o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac amddifadus ac mae ganddynt iechyd gwael iawn.

¹ UK Government, 2020. *Latest prison population figures for 2020*, <https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2020>, aed at y wefan ym mis Mai 2020.

² Jones, Robert, 2019. *Sentencing and imprisonment in Wales: 2018 Factfile*, <http://orca.cf.ac.uk/129765/>, aed at y wefan ym mis Mai 2020.

³ Jones, Robert, 2020. *Prison, probation and sentencing in Wales: 2019 Factfile* https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0010/2446129/Prison,-Probation-and-Sentencing-in-Wales-2019-Factfile.pdf, aed at y wefan ym mis Medi 2020.



Yn aml, maent wedi ymddieithrio oddi wrth wasanaethau iechyd prif ffrwd cyn ac ar ôl unrhyw gyfnod yn y carchar. I lawer o bobl a gedwir yn y carchar, mae eu statws iechyd gwael yn deillio o brofiadau niweidiol cynnar yn ystod plentyndod (cam-drin, esgeulustod a thrawma), amgylchiadau cymdeithasol (problemau â thai a chyflogaeth) a chyfraddau uwch o ysmegu, alcohol a chamddefnyddio sylweddau na'r boblogaeth gyffredinol, ac mae'r statws iechyd gwael hwn wedi ei waethygu gan y rhain.

O'r bobl sydd yn y carchar, amcangyfrifir bod gan 36% anabledd corfforol neu feddyliol, o'i gymharu â 19% o'r boblogaeth gyffredinol; mae gan 11% ohonynt anabledd corfforol, mae gan 18% ohonynt anabledd meddyliol ac mae gan 7% ohonynt y ddau.⁴


Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ofal iechyd carchardai yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

⁴ Prison Reform Trust, 2017. *Bromley Briefings Prison Factfile*, <http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Bromley%20Briefings/old%20editions/Autumn%202017%20Factfile.pdf>, aed at y wefan ym mis Mehefin 2020.



Ar lefel leol, byrddau partneriaeth iechyd carchardai, a gadeirir ar y cyd gan fyrddau iechyd lleol a llywodraethwyr y carchardai, sy'n gyfrifol am lywodraethu gwasanaethau iechyd carchardai. Y byrddau iechyd perthnasol yw:

- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Carchardai EM Brynbuga a Phrescoed
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Carchar EM Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe – Carchar EM Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Carchar EM Berwyn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Carchar EM Parc (yn yr achos hwn, darperir gofal iechyd sylfaenol gan G4S, ond mae rhwymedigaethau eilaidd a gofal cymdeithasol yn aros gyda'r GIG).




Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru *Gytundeb partneriaeth ar gyfer iechyd mewn carchardai yng Nghymru* gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.⁵

Sefydlodd y cytundeb hwn grŵp/bwrdd goruchwylio carchardai cenedlaethol a fyddai'n cyflawni gwelliannau drwy sefydlu pedair ffrwd waith â blaenoriaeth, sef:

- sicrhau bod amgylcheddau carchardai yng Nghymru yn hybu iechyd a lles i bawb
- datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles meddyliol ac anabledd dysgu cyson ar draws yr holl garchardai, sydd wedi eu haddasu yn ôl yr angen
- cynhyrchu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli'r camddefnydd o sylweddau mewn carchardai yng Nghymru
- datblygu safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn carchardai yng Nghymru.

⁵ Llywodraeth Cymru, 2019. *Cytundeb partneriaeth ar gyfer iechyd mewn carchardai yng Nghymru*, <https://llyw.cymru/cytundeb-partneriaeth-ar-gyfer-iechyd-mewn-carchardai-yng-nghymru>, aed at y wefan ym mis Mawrth 2020.



Cyfweliad â Clare Frost, Pennaeth Gofal Iechyd CEM a STI Parc/G4S Health Services

Beth yw eich cefndir nyrsio?


Cefais fy nerbyn yn nyrs gyffredinol ym 1991. Ar ôl rhyw flwyddyn ar wardiau meddygol, fe es i ymlaen i gael fy nerbyn yn nyrs iechyd meddwl. Roeddwn i'n teimlo nad oedd seiciatreg aciwt yn defnyddio fy sgiliau cyffredinol gymaint ag yr hoffwn, ac roedden nhw'n adeiladu carchar yn Doncaster ble'r oeddwn yn byw ar y pryd. Meddyliais, "Fe af i weld beth sy'n digwydd yno" – a cherddais i fyd a'm syfrdanodd i, ac sydd wedi parhau i wneud hynny bob diwrnod.

Beth a'ch syfrdanodd chi'n benodol?

Rwy'n gweld ac yn helpu pobl sydd cyn ised ag y byddan nhw yn eu bywydau, mae'n debyg. Mae pobl yn dod i mewn am y tro cyntaf ar ôl esgeuluso eu hiechyd yn llwyr – problemau deintyddol, diabetes, camddefnyddio sylweddau. Ac mae iechyd meddwl yn broblem enfawr. Rwy'n credu bod gan oddeutu 80% o'r dynion sy'n dod i mewn i'r ddalfa ryw fath o broblem iechyd meddwl. Ac wrth gwrs, gan eu bod nhw'n mabwysiadu delwedd dyn caled – mae'n anodd iawn cael drwodd i bobl a'u cael nhw i mewn i wasanaethau. Ond ofod yn ddyn sydd wedi ei gadw yn y carchar, mae'n nhw ddeng mlynedd yn hŷn yn gorfforol na'u hoedrannau go iawn.

Sut ydych chi'n ymdrin ag argyfyngau?

Nid oes gennym ni gyfleuster cleifion mewnol – mae'n debyg iawn i nyrsio cymunedol. Ond mae gennym ein tîm argyfwng, y gallech ddweud eu bod fel parafeddygon. Maen nhw'n ymateb 24 awr y diwrnod i anafiadau chwaraeon, hunan-niweidio difrifol, argyfyngau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Mae NPS (Sylweddau Seicoweithredol Newydd) wedi effeithio arnom yn eithaf sylweddol.



PARHAD...

Beth am weddill y gwasanaeth iechyd?

Mae'r tîm craidd o nyrsys cyffredinol yn rheoli cyflyrau hirdymor ac yn cynnal clinigau. Mae gan ein timau Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl eu llwythi achosion eu hunain, gan gynnig cymorth a derbyn atgyfeiriadau gan y tîm argyfwng ac mae gan Blant, Pobl Hŷn ac Atal Hunanladdiad nyrsys penodedig. Mae cynorthwyr gofal iechyd a thechnegwyr fferyllol yn eu cefnogi nhw.

Mae hynny'n eithaf gwahanol i'r patrwm sifftiau sengl a welir mewn mannau eraill.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd pob un o'n nyrsys yn gweithio diwrnodau hir ac yn cylchdroi sifftiau nos. Fe wnaethom ni gynnal cyfweiliadau ymadael gydag ychydig o'r staff a adawodd, ac roedd eu rhesymau'n eithaf dilys – roedd ganddyn nhw blant ac roedd angen oriau hyblyg arnyn nhw, neu roedden nhw'n teimlo nad oedden nhw'n defnyddio eu sgiliau. Roedd arbenigwyr yn cael eu hunain yn canslo eu clinigau i ymateb i argyfyngau – dychmygwch pe bawn yn cyrraedd am apwyntiad a bod rhywun yn dweud wrthyf fi "Mae'r nyrsys wedi gorfod rhedeg i argyfwng"! Fe fyddwn i braidd yn flin. Cafodd effaith negyddol iawn ar bawb.

Fe wnaethom ni sylwi y gallem ni fod yn llawer mwy hyblyg ac adlewyrchu'r gymuned yn llawer gwell. Nawr, mae gennym nyrsys sy'n defnyddio eu sgiliau, yn gwneud yr hyn y maen nhw'n ei fwynhau. Mae ein proses cadw staff wedi bod yn rhyfeddol – a dweud y gwir, mae gennym ni restr aros o staff sy'n dymuno gweithio yma. Mae mynediad a boddhad ill dau wedi gwella. Ac rydym yn gwneud pethau'n wahanol gyda'r un cronfeydd.



Adran 2 Sut mae nyrsio mewn carchardai yn gwella iechyd y cyhoedd

Mae gan staff nyrsio mewn carchardai y gallu i nodi, trin a rheoli cyflyrau hirdymor a chyflyrau eraill yn effeithiol, gan feithrin perthynas ag unigolion yn ystod cyfnod heriol o'u bywydau. Dywedodd un aelod o'r RCN ei bod yn anodd disgrifio pa mor amrywiol a heriol yw'r swyddogaeth oherwydd ei bod yn gofyn am gynifer o sgiliau:

“Mae gweithio fel nyrs mewn carchar yn gofyn am lawer o sgiliau gwahanol. Mae'n rhaid i chi fod yn nyrs gofal sylfaenol, yn nyrs aciwt, yn nyrs iechyd meddwl, yn nyrs gofal lliniarol a'n nyrs sy'n gofalu am yr henoed – ac weithiau, yn swyddog carchar hyd yn oed – i gyd ar yr un pryd. Fe wnes i ymdrin â hunanladdiad, hunan-niweidio, iechyd meddwl difrifol, defnyddio sbeis, poen aciwt yn yr abdomen, sepsis a digwyddiad o ddynladdiad hyd yn oed – a dim ond mewn un wythnos oedd hynny.”

Mae'r boblogaeth breswyl mewn carchardai yn newid yn gyson.




O safbwynt iechyd, mae hyn yn golygu bod ymyriadau a thriniaethau sy'n gwella iechyd carcharorion yn ffordd hynod effeithiol o wella iechyd y boblogaeth gyffredinol.

Gall ymyriadau atal, lleihau neu leddfu salwch a chyflyrau gwanychol a allai achosi rhagor o niwed i'r unigolyn fel arall a bod yn anoddach i'r gwasanaeth eu cefnogi yn ddiweddarach.

Hepatitis C

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'n gyhoeddus ei hymrwymiad i gyflawni targed Sefydliad Iechyd y Byd o ddileu hepatitis C yn y wlad erbyn 2030. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydnabod y rhan bwysig y gall carchardai Cymru ei chwarae wrth gyflawni'r targed hwn.⁶ Ers 2010, mae nyrsys a staff nyrsio wedi cynnal profion rheolaidd mewn carchardai am feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed, gan gynnwys hepatitis C.

⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Hepatitis C*, <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/43746>, aed i'r wefan ym mis Mawrth 2020.




Yn 2016, symudodd Cymru i brofion optio allan, lle cynigir profion am feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed i bob dyn yn y carchar o fewn ei ddiwrnodau cyntaf yn y carchar.

Mae gwasanaethau arbenigol o fyrddau iechyd lleol yn ymdrin â feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed gan gynnal clinigau ym mhob carchar, a chan ddarparu triniaeth ar gyfer hepatitis C, hepatitis B a HIV. Dyma un enghraifft o'r gwaith cadarnhaol a wneir yng ngharchardai Cymru ac mae'n bwysig cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar iechyd y cyhoedd.

Salwch meddwl (gan gynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio)

Mae cyflyrau salwch meddwl yn fwy cyffredin mewn carchardai o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae RCN Cymru yn croesawu sefydlu ffrwd waith benodol gan Lywodraeth Cymru i sbarduno gwelliannau yn y gwasanaethau hyn.




Mae nifer yr hunanladdiadau a'r achosion o hunan-niweidio ar gynnydd mewn carchardai yng Nghymru, ac mae hyn yn ychwanegu pwysau ychwanegol ar staff nyrsio, o ran llwythi gwaith a straen emosiynol. Mae nifer yr achosion o hunan-niweidio a nifer yr ymosodiadau mewn carchardai yng Nghymru a gofnodwyd wedi cynyddu ar gyfradd uwch o'i chymharu â charchardai yn Lloegr ers 2010.

Cafwyd mwy o aflonyddwch carchar yn CEM Parc yn 2016 a 2017 nag unrhyw garchar arall yng Nghymru a Lloegr.⁷

Yn ystod dadl mewn cynhadledd RCN yn 2018, nododd aelodau her benodol o ran cefnogi'r rhai y nodwyd bod angen cymorth iechyd meddwl arbenigol arnynt ond sy'n wynebu amseroedd aros hir am drosglwyddiadau i wasanaethau iechyd meddwl diogel. Mae ein haelodau yng Nghymru yn dweud bod hyn yn dal yn wir.

Mae nyrsys iechyd meddwl arbenigol yn weithwyr proffesiynol medrus iawn sydd wedi eu hyfforddi i ymdrin â chleifion sy'n dioddef o salwch meddwl, yn enwedig y rhai sydd mewn argyfwng iechyd meddwl.


⁷ Jones, Robert, 2019. *Sentencing and imprisonment in Wales: 2018 Factfile*, <http://orca.cf.ac.uk/129765/>, aed at y wefan ym mis Mai 2020.



Gall nyrsys iechyd meddwl fod yn ffynhonnell cyngor a chymorth arbenigol, ac maent hefyd yn gallu cyfeirio at asiantaethau eraill pan fo angen. Yn hollbwysig, mae'r nyrsys hyn hefyd yn meddu ar wybodaeth a sgiliau ar gyfer rhwystro materion rhag gwaethygu, a all helpu i atal achosion o gam-drin ac aflonyddwch rhag datblygu yn drais corfforol. Dylid cydnabod a defnyddio'r sgiliau hyn er lles a diogelwch cleifion a staff.

Mae'n rhaid i bob claf sydd mewn carchar fod yn gallu cael cymorth iechyd meddwl arbenigol yn ôl yr angen.

Mae nyrsys iechyd meddwl yn ffynhonnell cymorth i'r proffesiwn nyrsio ei hun hefyd. Gall gweld digwyddiadau treisgar neu straen cyffredinol neu fod yn rhan ohonynt effeithio ar berfformiad rhywun. Mae'r gallu i gael cymorth nyrsio i'r proffesiwn yn rhan bwysig o strategaeth lles a chadw staff.



Camddefnyddio sylweddau

Mae camddefnyddio canabis, opiadau, steroidau, canabinoidau synthetig a meddyginiaethau eraill a ddargyfeiriwyd wedi bod yn gyffredin ers peth amser, ond erbyn hyn mae ein haelodau'n adrodd bod defnydd eang o sylweddau seicoweithredol ymhlith poblogaethau carchardai.⁸

Caiff sylweddau seicoweithredol effeithiau corfforol a seicolegol anrhagweladwy a difrifol (newidiad mewn pwysedd gwaed, trawiadau, llai o ymdrech i anadlu, cynnwrf, paranoia a seicosis). Weithiau, gall yr effeithiau seicolegol hyn fod yn ddifrifol a/neu gallant bara'n hir.

Mae'r RCN yn galw am ddarparu rhagor o hyfforddiant i'r holl staff gofal iechyd ynghylch sut i ymdrin ag achosion sy'n gysylltiedig â sylweddau seicoweithredol.

⁸ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, 2019. *Strategaeth Cyffuriau mewn Carchardai*, ar gael yn [National Prison Drugs Strategy - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/418222/National_Prison_Drugs_Strategy_-_GOV.UK.pdf).



Anableddau dysgu

Mae gan nifer sylweddol o bobl sy'n ddarostyngedig i'r carchar a'r gwasanaethau prawf anableddau dysgu neu ryw fath o anhawster dysgu penodol. Dylai cyffredinolrwydd anableddau dysgu yng ngharchardai Cymru gael ei asesu'n briodol er mwyn pennu anghenion yr unigolion hyn a phenderfynu a yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu.

Dylai nyrsys anabledd dysgu gael eu hymgorffori i dimau gofal iechyd carchardai, neu dylid sicrhau y gellir cael gafael ar ofal nyrsio anabledd dysgu arbenigol. Gellir gwella'r gallu i gael gafael ar arbenigedd nyrsio anableddau dysgu drwy annog a hwyluso rhagor o nyrsys i gofrestru'n ddeuol hefyd (hynny yw, nyrs gofrestredig ym meysydd oedolion ac anableddau dysgu) a thrwy fuddsoddi mewn swyddi nyrsys ymgynghorol mwy arbenigol o fewn arbenigedd anableddau dysgu.

Mae'n hanfodol bod angen nyrsio anabledd dysgu poblogaeth y carchardai yn cael ei ystyried yn briodol yn ystod proses comisiynu addysg AaGIC.




Wrth gwrs, dylid rhoi cyfrif am yr angen hwn yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd perthnasol, ond yn rhy aml nid yw hynny'n digwydd.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y lleoedd i fyfyrwyr nyrsio cyn-gofrestru ar gyfer anabledau dysgu ers 2017. Nid oes unrhyw gyrsiau ôl-gofrestru amser llawn mewn nyrsio anabledd dysgu cymunedol sydd wedi cael eu comisiynu ers 2016. Comisiynwyd deg modiwl ôl-gofrestru rhan-amser yn flynyddol yn lle hynn. Mae'r RCN yn galw am strategaeth i sicrhau, boed drwy astudiaethau rhan-amser neu lawn amser, fod digon o nyrsys yn cwblhau'r cymhwyster ôl-gofrestru er mwyn sicrhau bod y gweithlu nyrsio anabledd dysgu cyffredinol yn cadw'r gallu i ddarparu gofal i'r boblogaeth.

Cymorth i garcharorion hŷn

Mae poblogaeth y carchardai sy'n heneiddio yng Nghymru a Lloegr yn golygu angen cynyddol i ddarparu ar gyfer anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol pobl hŷn yn y ddalfa.




Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dilyn ymchwiliad i ofal iechyd carchardai yn Lloegr fod carcharorion hŷn yn cael eu cadw mewn sefydliadau nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion yn aml ac y bydd llawer yn cael eu rhyddhau i'r gymuned heb unrhyw gymorth gofal cymdeithasol ar waith.⁹

Mewn deng mlynedd, mae nifer y marwolaethau naturiol ar draws ystâd carchardai Cymru wedi cynyddu o ddwy i naw fesul blwyddyn. Yn CEM Brynbuga, roedd 41% o boblogaeth y carchar yn 50 oed neu'n hŷn ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019, a bu wyth marwolaeth naturiol ers 2013.

Mae'n hysbys bod poblogaeth y carchardai yn mynd yn hŷn a bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol os bydd y cynigion dedfrydu newydd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU, "A Smarter Approach to Sentencing" yn cael eu gwneud yn gyfraith.

⁹ Prison Reform Trust, 2019. *Prison: the facts Bromley Briefings*
<http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Bromley%20Briefings/Prison%20the%20facts%20Summer%202019.pdf>, aed at y wefan ym mis Mehefin 2020




Mae'r heriau a achosir gan COVID-19 wedi gwaethygu'r materion hyn. Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliodd yr IAP a'r RCN ford gron arbenigol i nodi sut y gellid lleihau'r cynnydd mewn marwolaethau naturiol.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried themâu penodol sy'n ymwneud ag atal, neu leihau, marwolaethau yn y ddalfa, ac i dynnu sylw at atebion ac ymyriadau posibl. Daeth y ford gron ag academyddion, arolygwyr, rheoleiddwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at ei gilydd.

Mae'r adroddiad terfynol, *Avoidable natural deaths in prison custody: putting things right* yn tynnu ar fewnwelediadau o'r trafodaethau arbenigol hyn, yn ogystal ag ymgynghori â charcharorion ac ymchwil ehangach i ddadansoddi gofal sylfaenol a rheoli clefydau cronig; gofalu am garcharorion hŷn; gofal dementia; darpariaeth gofal cymdeithasol; rhyddhad tosturiol; gofal lliniarol; diwylliant, gweithlu a hyfforddiant.

Mae'n nodi sut y gellid atal marwolaethau o'r fath, pan fo hynny'n bosibl, a rheoli gofal diwedd oes gydag urddas a thosturi.



Mae'r nifer cynyddol o achosion o ddementia oherwydd poblogaeth carchardai sy'n heneiddio yn dod â phwysau ychwanegol, a byddant yn parhau i ddod â phwysau ychwanegol, o ran rheoli cyflwr hirdymor heriol mewn carchar.


Felly, yn ogystal â sicrhau bod y staff clinigol cywir gyda'r cymysgedd sgiliau cywir yn cael eu recriwtio, bydd yn bwysig hefyd fod mentrau arferion clinigol gorau gofal iechyd prif ffrwd yn cael eu defnyddio, megis egwyddorion SPACE RCN¹⁰ a siarteri sy'n ystyriol o ddementia, fel y'u cyflwynwyd ar draws ysbytai.¹¹

Mae egwyddorion SPACE fel a ganlyn:

- staff sy'n fedrus ac sydd ag amser i ofalu.
- gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr.
- asesu, nodi'n gynnar a chymorth ôl-ddiagnostig.
- gofal ar gyfer yr unigolyn.
- amgylcheddau sy'n deall dementia.

¹⁰ Royal College of Nursing, 2020. *Dementia: Our Work*, <https://www.rcn.org.uk/clinical-topics/dementia/current-work>, aed at y wefan ym mis Tachwedd 2020.


¹¹ Dementia Action Alliance, 2018. *Dementia friendly hospital charter*, <https://www.dementiaaction.org.uk/dementiafriendlyhospitalscharter>, aed at y wefan ym mis Tachwedd 2020.



Mae swyddogaeth bwysig i ofal cymdeithasol mewn carchardai ac mae'n rhaid buddsoddi digon o adnoddau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu bodloni'r galw cynyddol, ac y gellir cael gafael ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn gyson ar draws ystad carchardai Cymru. Gallai nifer yr achosion o anabledau corfforol megis golwg gwael, nam ar y clyw neu anawsterau gyda symudedd gynyddu gyda henaint hefyd.

Mae'r gallu i gael gafael ar gymhorthau ac offer gan dimau cymunedol yn bwysig, yn ogystal ag offer pwrpasol ar gyfer amgylchedd y carchar. Mae angen hefyd i gyllid cyfalaf dalu am addasiadau angenrheidiol i ystad y carchardai.

Canlyniad arall poblogaeth sy'n heneiddio yw y bydd canran uwch o boblogaeth y carchardai yn marw wrth wneud eu tymor mewn carchar. Ein dealltwriaeth ni yw bod mwyafrif yr unigolion sy'n derbyn gofal diwedd oes mewn carchardai yn dewis aros yn y carchar ac y byddai'n well ganddynt beidio â mynd i'r ysbyty neu hosbis. Mae llawer o fesurau wedi eu rhoi ar waith i alluogi hyn i ddigwydd, gydag enghreifftiau ar gael o ofal o ansawdd uchel iawn yn cael ei ddarparu.



Fodd bynnag, mae'n bwysig bod llwybrau gofal diwedd oes mewn carchardai yn cael eu harchwilio, a bod meysydd i'w gwella'n cael eu nodi, er mwyn sicrhau bod anghenion carcharorion sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes yn cael eu diwallu ac y gwneir hynny'n gyson ar draws pob carchar yng Nghymru.


Menywod mewn carchardai

Nid oes cyfleusterau carchar i fenywod yng Nghymru.

Mae'r diffyg cyfleusterau i fenywod yng Nghymru wedi arwain at broblemau penodol yn ymwneud â phellter o'u cartrefi, ymweliadau gan deuluoedd a chyswllt â'r gymuned.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfrifoldebau sydd ganddi i'r grŵp hwn a sut y gall eu cyflawni.

Mae RCN Cymru'n cydnabod yr angen am sgwrs yn y dyfodol ynghylch a ddylid lleoli'r menywod hyn mewn cyfleuster yng Nghymru.



Cyfweliad â Kirsty John, Nyrs Carchardai ac Aelod o'r RCN Carchar: *CEM Caerdydd*

Sut y daethoch i fod yn nyrs carchardai?


Rwyf wedi bod yn gymwys ers tair blynedd nawr. Cyn nyrsio, roeddwn yn swyddog carchar am 10 mlynedd, a phryd hynny, roedd gennyf ddiddordeb mawr bob amser yn ochr iechyd meddwl fy swydd. Felly pan benderfynais ddod yn nyrs, roeddwn i'n arbenigo mewn iechyd meddwl – a dyna beth arweiniodd fi yn ôl at y carchar yn nyrs newydd gymhwyso. Ar ôl treulio fy mlwyddyn gyntaf yn fy ngyrfa nyrsio yma yn CEM Caerdydd, gadewais am swydd gymunedol mewn clinig cyffuriau ac alcohol. Ond roeddwn i'n colli nyrsio mewn carchardai yn ofnadwy, ac ym mis Rhagfyr 2019 fe ddes i'n ôl yma yn nyrs band 7.

Beth mae pobl yn ei gamddeall ynghylch nyrsio mewn carchardai?

Mae'r swyddogaeth mor eang – mae rhai pobl yn meddwl mai'r unig beth yr ydym yn ei wneud yw rhoi meddyginiaeth i bobl drwy'r dydd, bob dydd! Ac er bod hynny'n cymryd llawer o'n hamser ni, mae'n rhan fach iawn o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rwyf wedi dysgu a gwneud agweddau ar ofal yn y carchar na fyddwn i byth wedi eu gwneud mewn unrhyw leoliad arall.

A oes unrhyw beth penodol yr hoffech i bawb ei weld?

Hoffwn iddyn nhw weld yr holl waith a'r ymdrech a wneir wrth ymdrin â phobl newydd gyrraedd: sicrhau bod eu meddyginiaeth yn iawn a'u bod nhw'n cael eu cyfeirio at yr holl bobl y mae angen eu cyfeirio nhw atynt, gan dynnu sylw at eu holl bryderon iechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, gwirio eu bod nhw wedi cael eu profi am feirysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed. Mae'n dasg enfawr. Rydym yn un o'r carchardai remánd prysuraf yn y wlad: mae gennym 750 yn y carchar nawr, sy'n eithaf isel – gall fynd hyd at 812 – ond ym mis Mai a mis Mehefin fe gawsom...



PARHAD...

....ni 632 o dderbyniadau newydd. Felly bob dau i dri mis, mae poblogaeth y carchar yn cael ei throï drosodd yn llwyr. **Ar ben rowndiau meddyginiaeth, argyfyngau, profion gwaed, a gweithio o amgylch amserlen y carchar.**

Ie, a grŵp eithaf bach ydym ni.

'Dyw hynny ddim yn swnio fel chwarae plant.

Mae e'n waith anodd a chaled iawn, ond rydych yn gwneud llawer iawn o hyfforddiant na fydddech chi'n ei gael mewn unrhyw leoliad arall. Byddaf i'n dweud wrth unrhyw un am ddod i weithio mewn carchar! Rwy'n credu ei fod yn un o'r lleoedd gorau i weithio ynddo. Rwyf wrth fy modd, ac 'allaf i ddim gweld fy hun yn gweithio yn unman arall, ond rwy'n credu bod rhai pobl yn edrych i lawr eu trwyn ychydig ar nyrsys carchardai. Byddwn wrth fy modd petaen nhw'n dod i mewn am y diwrnod a gweld yr holl bethau yr ydym yn eu gwneud. Fe fyddwch yn sicr o newid eich meddwl.

Beth yw'r heriau mwyaf sy'n eich wynebu chi?

Cadw staff yw ein problem fwyaf. Rydym yn cael ein proffilio ar gyfer nifer penodol o staff ym mhob band ac rydym wedi colli nyrsys band 5 rhagorol oherwydd nad oedd unrhyw fodd o gynnig swyddogaeth band 6 iddyn nhw. Byddem ni wrth ein boddau yn gwneud i'n swyddi band 5 gamu ymlaen i fand 6 ar ôl cyfnod penodol o amser.

Beth fydddech chi'n ei newid, pe gallech chi newid unrhyw beth?

Byddwn wrth fy modd yn cael staff ychwanegol, oherwydd byddwn wrth fy modd yn edrych ar anghenion iechyd y carcharorion mewn clinigau dan arweiniad nyrsys a gwneud rhagor o waith rheoli clefydau cronig yn hytrach na dim ond brysbennu'n barhaol. A byddai hynny'n helpu fy nyrsys i gamu ymlaen hefyd oherwydd y bydden nhw'n gallu mynd ar drywydd maes o ddiddordeb iddyn nhw. Byddwn i wrth fy modd yn cael digon o staff i wneud hynny.



Adran 3 Sut gallai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y nyrsys a'r staff nyrsio sy'n gweithio mewn carchardai?

Mae'r RCN yn credu y dylai'r grŵp/bwrdd goruchwylio iechyd carchardai cenedlaethol weithio gydag AaGIC a'r Prif Swyddog Nyrsio i ddatblygu fframwaith gyrfa ar gyfer nyrsio mewn carchardai. Ochr yn ochr â'r cam gweithredu hwn, mae'r RCN yn credu y dylai'r grŵp/bwrdd sefydlu ffrwd waith er mwyn gwneud argymhellion o ran cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff mewn carchardai, a'r gwelliannau o wneud hynny.

Mae RCN Cymru yn argymhell cynyddu'r gefnogaeth a datblygu rhagor o swyddogaethau ymarfer uwch mewn lleoliadau troseddwr. Byddai hyn yn gwella'r broses o gadw staff yn y lleoliadau hynny yn fawr.

Datgelodd tystiolaeth Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ofal iechyd carchardai gan bob un o'r byrddau iechyd bryderon mawr ynghylch lefelau staff nyrsio.¹²

¹² Senedd Cymru, 2019. *Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i*



“Mae gennym nifer o brif heriau'r gweithlu, gan gynnwys: cadw staff ar lefel nyrsio band 5 oherwydd diffyg gwaith amrywiol a diffyg cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa ... Mae diffyg gwaith amrywiol i'r cyflenwad bach o staff yn golygu bod gwaith nyrsio yn canolbwyntio ar ddsbarthu meddyginiaeth i nifer fawr o ddynion, sy'n cymryd oddeutu hanner yr amser nyrsio bob dydd ... Diffyg cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa ... Er bod gennym nyrsys sydd wedi eu hyfforddi mewn gofal asthma a diabetes, nid ydym yn cynnal Clinigau ar gyfer Clefydau Cronig dan arweiniad Nyrsys ar hyn o bryd oherwydd pwysau staffio/adnoddau.” *Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro*

“Mae'r anawsterau o ran cadw staff nyrsio mewn carchardai yng Nghymru yn amlwg. Mae mwyafrif y nyrsys yn Abertawe yn gweithio ym Mand 5 ... Oherwydd bod y gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i amrywiaeth o arbenigeddau gael eu cynnwys, yn aml, bydd nyrs yn datblygu sgil mewn maes allweddol megis iechyd rhywiol, iechyd meddwl a therapi....


oedolion, <https://busnes.senedd.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=24408&Opt=3>, aed at y wefan ym mis Tachwedd 2020.



....ymddygiad gwybyddol, er enghraifft. Yn aml, ar ôl blwyddyn neu ddwy, bydd y nyrs yn gadael i gael dyrchafiad mewn swydd y tu allan i'r carchar gan ddefnyddio'r sgiliau a enillwyd ... Ceir anawsterau hefyd o ran cadw staff yn Nhîm Iechyd Meddwl Mewngymorth y Carchar. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chapasiti'r tîm a'r pwysau o geisio bodloni'r galw am wasanaethau. Mae'r gweithlu'n gweithio y tu hwnt i'w horiau contract yn aml er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion risg a diogelwch ..." *Bwrdd Iechyd Bae Abertawe*

"mae recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig yn fater sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau yn CEM Berwyn" *Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr*

"Mae'n debyg bod angen rhagor o bwyslais ar nyrsio mewn carchardai fel gyrfa werth chweil. Un ffordd o wneud hyn fyddai cael ymgyrch recriwtio â phwyslais a sicrhau bod fframwaith cymwyseddau Cymreig ar gyfer nyrsys a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd mewn carchardai. Yn ddiweddar, mae CEM Brynbuga a Phrescoed wedi sicrhau..."




....lleoliadau myfyrwyr y gobeithir y byddant yn galluogi myfyrwyr i ystyried gofal iechyd mewn carchardai fel dewis gyrfa deniadol.” *Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan*

Mae'r RCN yn llwyr gefnogi'r awgrymiadau cadarnhaol ac adeiladol a wnaed gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.


Gallai rhagor o gyfleoedd am waith amrywiol, twf a datblygiad fod ar gael i'r gweithlu nyrsio mewn carchardai drwy gyfuno cyfleoedd proffesiynol yn greadigol ar draws byrddau iechyd.

Gellir cymryd camau ymarferol megis sicrhau amser a ddiogelir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn gwella morâl y staff a hybu'r dasg o gadw staff. Mae lleoliadau ar gyfer myfyrwyr nyrsio yn bwysig. Byddai cynllun gweithlu cydgysylltiedig ar gyfer gofal iechyd carchardai yn cydnabod swyddogaethau; addysg, gofynion hyfforddi a chymwyseddau; a gweithlu mwy hyblyg ac ystwyth sy'n gallu diwallu anghenion y boblogaeth.



Agenda ar gyfer Newid yw'r fframwaith ar gyfer y DU gyfan o ran cyflogau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a datblygu gyrfa. Mae hwn yn cynnwys llwybr sydd eisoes wedi ei gydnabod yn Atodiad 20 ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mand 5 (y pwynt mynediad i broffesiwn megis nyrs gofrestredig, ffisiotherapydd ac yn y blaen) i gamu ymlaen at fand 6 o fewn 2 flynedd gyda datblygiad yn y swydd. Mae hyn yn gymhelliant gwirioneddol i recriwtio ac mae'n darparu gweithiwr proffesiynol hyblyg a medrus iawn ar gyfer y gwasanaeth.

Mae angen adolygu'r broses o fetio'r gweithlu. Mewn sector sydd eisoes yn profi trosiant staff cymharol uchel, gall oedi hir a achosir gan y broses fetio beryglu darpar gyflogeion sy'n dechrau ar eu swyddi. Gall hyn arwain at ragor o gost i'r system neu golli darpar gyflogeion i gyfleoedd cyflogaeth eraill hyd yn oed. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth carchardai sicrhau mynediad cyflym a diogel i holl staff y GIG (heb unrhyw gost ychwanegol i'r staff eu hunain) fel y gallant ddarparu gofal i'r rhai sydd yn y carchar yng Nghymru, ac mae'r RCN yn credu bod angen adolygu hyn ar frys.




Mae'n amlwg bod cynnal lefelau staffio diogel yn ystad carchardai Cymru yn hollbwysig, ac mae RCN Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Rhaglen Staffio Genedlaethol weithio gyda'r grŵp/bwrdd goruchwylio cenedlaethol er mwyn ystyried ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i gynnwys nyrsio mewn carchardai ac ystad carchardai Cymru.

Byddai ymestyn cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol yn diogelu cleifion mewn carchardai ac yn sicrhau y cynhelir lefelau staff nyrsio digonol i ddarparu gofal o ansawdd uchel mewn carchardai yng Nghymru.

COVID-19 ac atal a rheoli heintiau

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau amrywiol gyda chymhlethdodau digynsail i staff a swyddogion iechyd mewn carchardai yng Nghymru.

Cynyddodd nifer y bobl yng ngharchardai Cymru i'w lefel uchaf erioed ar 27 Mawrth 2020, 17 diwrnod ar ôl i Sefydliad Iechyd y Byd ddatgan bod COVID-19 yn bandemig byd-eang



a phum niwrnod ar ôl i lywodraethau'r DU gyflwyno cyfyngiadau symud ledled y DU.¹³


CEM Abertawe oedd y carchar mwyaf gorlawn yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd mis Mawrth 2020.¹⁴

Nid yw graddfa ac effaith COVID-19 ar garchardai, staff carchardai a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru yn gwbl hysbys eto.

Fodd bynnag, mae'n hysbys bod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar garchardai Cymru o'i chymharu â'r boblogaeth ehangach ac ystad carchardai Lloegr. Nododd Robert Jones, Prifysgol Caerdydd, fod un o bob pump (20%) o'r holl achosion a gadarnhawyd ymhlith carcharorion yng Nghymru a Lloegr wedi eu cofnodi yng ngharchardai Cymru ar 19 Mehefin 2020.

¹³ UK Government, 2020. *Latest prison population figures for 2020*, <https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2020>, aed at y wefan ym mis Mai 2020.

¹⁴ Jones, Robert, 2020. *COVID-19 and imprisonment in Wales*, https://www.cardiff.ac.uk/data/assets/pdf_file/0012/2205300/Covid-19-and-Imprisonment-in-Wales-April-2020-FINAL.pdf, aed at y wefan ym mis Tachwedd 2020.




Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai di ond 6% o boblogaeth carchardai Cymru a Lloegr oedd gan garchardai Cymru ar ddiwedd mis Mehefin 2020.¹⁵

Ym mis Mai 2020, adroddodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ei fod wedi mabwysiadu dull “tair elfen” o ymdrin â pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys:

1. Strategaeth “adrannu” er mwyn ynysu’r rhai sy’n arddangos symptomau a gwarchod carcharorion sy’n agored i niwed.
2. Cynllun rhyddhau dros dro wrth ddod at ddiwedd dedfryd. Gwnaeth y cynllun hwn asesu’r risg yn achos carcharorion a oedd â dau fis ar ôl o’u dedfryd ac yn eu rhyddhau dros dro.
3. Eifen olaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd ehangu ystad y carchardai dros dro. Cyflwynwyd celloedd meddiannaeth sengl yn CEM Prescoed ac mae cynlluniau i ehangu’r capasiti yn CEM Parc yn cael eu hystyried.

¹⁵ Jones, Robert, 2019. *Sentencing and imprisonment in Wales: 2018 Factfile*, <http://orca.cf.ac.uk/129765/>, aed at y wefan ym mis Mai 2020.




Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddogfen ym mis Gorffennaf 2020 ynghylch sut i liniaru effeithiau clefydau trosglwyddadwy ym mhob lleoliad, gan gynnwys carchardai, gyda'r nod o leihau lledaeniad COVID-19. Teitl y ddogfen oedd *The Communicable Disease Outbreak Plan for Wales* neu yn syml "The Wales Outbreak Plan". (Saesneg yn Unig).

Mae Rhan 6 o "Wales Outbreak Plan" yn cyfeirio at garchardai. Mae Rhan 6 yn trafod y cynllun amlasiantaethol wrth gefn ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy neu ddigwyddiadau diogelu iechyd eraill mewn carchardai yng Nghymru. Datblygwyd y cynllun yn 2013 a chafodd ei ailgyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 yn rhan o Wales Outbreak Plan.


Mae RCN Cymru yn credu'n gryf ei bod yn bwysig asesu effaith y don gyntaf o bandemig COVID-19 ar bobl mewn carchardai yng Nghymru, yn ogystal â staff carchardai a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Byddai hyn yn caniatáu dealltwriaeth glir o sut y dylai ystad y carchardai weithredu yn ystod unrhyw donnau posibl yn y dyfodol.



Ar lefel y DU, lluniodd y Panel Cyngori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa a'r RCN adroddiad, *Avoidable natural deaths in prison custody: putting things right* (Medi 2020).

Er nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn uniongyrchol, amlygodd yr adroddiad fod y pandemig wedi cael effaith anghyfartal, ddigynsail ar boblogaeth y carchardai, gyda'r marwolaethau uchaf a gofnodwyd yn nalfa'r carchar yn digwydd yn 2020. Mae'r adroddiad yn nodi 15 o argymhellion i leihau nifer y marwolaethau y gellir eu hosgoi mewn carchardai a dylai pob un o bedair llywodraeth y DU eu hystyried. I ddarllen yr adroddiad, [cliciwch yma](#).



Cyfweliad ag Alison Ryland, CEM Brynbuga (Categori C), STI Prescoed (Categori D)

Mae gan Brynbuga a Phrescoed boblogaethau eithaf gwahanol. Sut mae hynny'n effeithio arnoch chi?


Ym Mrynbuga, mae rhai o'r dynion i mewn am gyfnod hir iawn, yn aml, maen nhw'n cyrraedd eu 70au a throsodd ar ôl cyflawni troseddau hanesyddol. Maen nhw'n tueddu i ddatblygu clefydau cronig yn llawer cyflymach o'i gymharu â'r gymuned. Mae hanner y boblogaeth dros 50 oed. Mae Prescoed yn wahanol iawn – mae'n debyg mai 30-40 yw'r oedran cyfartalog, y mae pob un ohonyn nhw â llai na dwy flynedd ar ôl o'u dedfryd. Mae hynny'n ei gwneud yn boblogaeth eithaf byrhoedlog. 'Dydych chi ddim yn cael y cyfle i weithio gyda nhw gymaint.

Disgrifiwch sifft arferol inni.

Mae gen i ddeg aelod o staff, ond fel arfer dim ond dwy nyrs gymwysedig a gweithiwr cymorth gofal iechyd sydd gen i ym Mrynbuga ac un o bob un i fyny ym Mhrescoed. Yn ystod yr awr gyntaf, mae nyrsys yn brysbennu cyn symud ymlaen i apwyntiadau, tra bydd y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gwneud unrhyw brofion gwaed a chyfweliadau rhyddhau. Yna, yn y prynhawn, rydym yn ceisio gwneud clefydau cronig, brechiadau, trin clwyfau – ond mae rhywbeth bob tro sy'n rhoi sbocsen ynddi!

Dim rowndiau meddyginiaeth, felly?

Nag oes – 'does dim fferyllfa ar y safle. Yn lle hynny, mae'n rhaid i'r dynion i gyd fod wedi cael eu hasesu am y risg o gael meddyginiaeth yn eu meddiant.



PARHAD ...

Mae hynny'n wahanol iawn i gategoriâu diogelwch uwch.

Gall achosi problemau gyda chadw staff mewn carchardai eraill hyd yn oed, os ydyn nhw'n teimlo mai dim ond rhoi meddyginiaeth y mae nhw yn hytrach na bod yn nyrsys. Rydym ni'n eithaf ffodus nad yw'r broblem honno gennym yma. Er bod fy mand 7 yn gwneud ei Gradd Meistr, a bydd yn help enfawr i ni pan fydd hi'n cwblhau ei phresgripsiynu anfeddygol.

Pa rwystrau eraill ydych chi'n eu gweld i recriwtio a chadw staff?


Ceir diffyg gwybodaeth - 'dyw pobl ddim yn deall beth sy'n digwydd mewn carchar. Yr un mawr arall yw camu ymlaen mewn gyrfa a datblygiad proffesiynol. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau a chyflwyno swydd band 7, gan greu llwybr o fandiau 6 i 8, ond mae angen rhagor o gyfleoedd fel y rhain.

Beth yw'r pethau anoddaf a gorau am nyrsio mewn carchardai?

'Dyw pobl ddim yn dymuno cael cymorth bob amser, a gellir cael cryn dipyn o wrthwynebiad ganddyn nhw. Ac mae'n amgylchedd heriol: rydych yn darparu gofal tebyg i feddygfa, ond gyda ffactorau allanol eithaf gwahanol. Er mwyn anfon rhywun i apwyntiad claf allanol, mae'n rhaid i chi siarad â 5 o wahanol bobl: diogelwch, yr uwch-swyddog ar alwad, staff manylion, cludiant, ac yna'r nyrsys eu hunain. Ond un o'r pethau gorau yw'r teimlad pan fyddwch yn nodi mater gofal iechyd ac yn ei ddatrys ef.

Pe baech chi'n gallu newid un peth am nyrsio mewn carchardai gyda hudlath, beth fyddai hynny?

Rhagor o arian, rhagor o amser. Rhagor o staff. Rydym newydd ddatblygu llwybr diwedd oes oherwydd mai Categori D yw'r lle agosaf sy'n darparu gofal lliniarol.



Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Yr RCN yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur nyrsys mwyaf y byd, yn cynrychioli tua 435,000 o nyrsys, bydwagedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau RCN yn gweithio yn y sector annibynnol ac yn y GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau yn gweithio yn y gymuned.

Mae'r RCN yn sefydliad y DU gyfan, â'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.